Walk Wheel Cycle Trust
Cymru

# Cymru'n Symud

## Chwe cham i helpu pawb gerdded, olwyno a beicio









**Walk Wheel Cycle Trust yw'r brif elusen y Deyrnas Unedig sy'n ei gwneud hi'n bosibl i bawb gerdded, olwyno a beicio. Dyma gyflwyno chwe gofyniad cyraeddadwy ac uchel eu heffaith i Lywodraeth nesaf Cymru, i helpu pawb yng Nghymru deithio'n fwy egnïol a byw bywydau iachach a gwyrddach.**

## 1

**Buddsoddi mewn teithio diogel ac iach. Gwneud cystal â dinasoedd a rhanbarthau blaenllaw Ewrop drwy neilltuo 10% o'r gyllideb trafnidiaeth i gefnogi cerdded, olwyno a beicio.**

- Mae gan Gymru ddeddfwriaeth flaenllaw yn y byd eisoes yn y Ddeddf Teithio Llesol – ond mae hi wedi'i than-ariannu o hyd.
- Bydd cynyddu cyfran y teithiau a wneir ar droed ac ar feic yn lleihau tagfeydd, yn gwella ansawdd aer ac yn lleihau allyriadau trafnidiaeth – sef y sector â'r allyriadau mwyaf yng Nghymru.
- Bydd cyllid hirdymor, cyson yn rhoi'r sicrwydd sydd ei angen ar awdurdodau lleol a Chyd-bwyllgorau Corfforedig i gyflawni newid.

## 2

**Galluogi cerdded, olwyno a beicio i bawb. Diogelu palmentydd fel eu bod yn ddiogel, yn hygyrch a heb rwystrau.**

- Mae gormod o balmentydd yng Nghymru wedi torri, yn anniben neu'n anhygyrch, gan wneud cerdded, sgwtera a defnyddio cymhorthion symudedd yn anniogel.
- Mae ceir sydd wedi'u parcio ar balmentydd yn gorfodi pobl i fynd allan i'r ffordd – mae angen gweithredu'n gryfach i atal hyn.
- Byddai Cronfa Palmentydd bwrpasol yn targedu buddsoddiad mewn strydoedd mawr lleol, ysgolion, canolfannau iechyd, gorsafoedd a llwybrau bysiau – gan roi mynediad cyfartal i bawb.

## 3

**Ysbrydoli cenedlaethau'r dyfodol i gerdded, olwyno a beicio. Dylai pob plentyn yng Nghymru allu cyrraedd yr ysgol yn ddiogel trwy gerdded, olwyno, beicio neu sgwtera.**

- Mae rhieni'n crybwyll perygl ffyrdd fel y rhwystr mwyaf i deithio llesol i blant.
- Mae tystiolaeth yn dangos bod plant eisiau teithio'n egnïol ond maen nhw'n aml yn teimlo'n anniogel wrth wneud hynny.
- Mae strydoedd ysgol diogel yn helpu i wreiddio arferion teithio iach gydol oes ac yn hybu lles plant.

## 4 Gwneud system drafnidiaeth Cymru yn gwbl hygyrch drwy gynnwys lleisiau pobl anabl ym mhob penderfyniad ynghylch trafnidiaeth.

- Mae poblogaeth Cymru yn heneiddio ac mae mwy o bobl yn wynebu heriau symudedd nad yw ein systemau trafnidiaeth yn barod ar eu cyfer eto.
- Mae pobl anabl yng Nghymru yn parhau i wynebu cael eu heithrio o drafnidiaeth gyhoeddus ac o deithio o gwmpas eu hardaloedd lleol.
- Dylai grwpiau mynediad, dan arweiniad pobl anabl, chwarae rhan gryfach mewn llunio, monitro a chyflawni buddsoddiad mewn trafnidiaeth er mwyn sicrhau ei fod yn gwella cydraddoldeb.

## 5 Cysylltu moddau a gwneud mwy o deithiau'n bosibl. Sicrhau llwybrau cerdded, olwyno a beicio diogel i bob gorsaf ac arhosfan bws yng Nghymru.

- Mae teithiau ar drafnidiaeth gyhoeddus yn dechrau ac yn gorffen gyda cherdded neu feicio, ond mae gormod o lwybrau i gyrraedd arosfannau a gorsafoedd yn anniogel neu'n anhygyrch.
- Bydd cysylltu buddsoddiad mewn teithio llesol â diwygio bysiau ac uwchraddio rheilffyrdd yn datgloi mynediad at rwydweithiau Metro rhanbarthol a rhwydweithiau bysiau lleol.
- Dylai fod gan bob cymuned lwybrau diogel, uniongyrchol a deniadol i'w canolfan drafnidiaeth gyhoeddus agosaf, gan leihau dibyniaeth ar geir a thlodi trafnidiaeth.

## 6 Cymru i gyd, o bentref i bentref ac o arfordir i arfordir. Cysylltu Cymru drwy gysylltu ardaloedd gwledig a threfol â rhwydwaith o lwybrau a ffyrdd diogel, wedi'u hangori gan y Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol.

- Bydd cysylltedd gwell yn cryfhau economïau lleol a thwristiaeth ac yn gwneud bywyd bob dydd yn haws yn ein trefi a'n pentrefi.
- Rhaid cynllunio tai a datblygiadau newydd o amgylch cerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus ddiogel – nid o amgylch dibyniaeth ar geir.
- Mae'r Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol eisoes yn rhedeg trwy bob awdurdod lleol yng Nghymru a dylai ffurfio asgwrn cefn y rhwydwaith teithio llesol cenedlaethol. Fel pob seilwaith hanfodol, rhaid cefnogi ei cydnerthedd, yn enwedig yn wyneb newid hinsawdd.

Walk Wheel Cycle Trust

**Walk Wheel Cycle Trust yw'r elusen sy'n ei gwneud yn bosibl i bawb gerdded, olwyno a beicio.**

**Oherwydd mae symudiad a bwerir gan bobl yn newid popeth.**

**Ein hiechyd. Ein lles. Ein byd.**

**walkwheelcycletrust.org.uk**

Mae Walk Wheel Cycle Trust yn elusen gofrestredig yn Lloegr a Chymru (rhif 326550), Yr Alban (SC039263) a Gweriniaeth Iwerddon (20206824).